

Rhif: WG39484



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

GOFAL IECHYD PARHAUS Y GIG

Fframwaith Cenedlaethol Cymru

Tachwedd 2019

CYNNWYS

CYFLWYNIAD

Diben.....	3
------------	---

CEFNDIR

Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus 2014	4
--	---

Egwyddorion Cyffredinol Gofal Iechyd Parhaus.....	5
---	---

ADOLYGIAD O FFRAMWAITH 2014

Cwmpas yr adolygiad	6
---------------------------	---

YMGYNGHORIAD

Crynodeb o'r ymatebion	7
------------------------------	---

Prif ganfyddiadau	8
-------------------------	---

Ymatebion i'r ymgynghoriad	9
----------------------------------	---

Y Camau Nesaf.....	24
--------------------	----

ATODIAD 1 Rhestr termau	25
-------------------------------	----

CYFLWYNIAD

Diben

1. Mae gofal iechyd parhaus y GIG (GIP) yn becyn o ofal a chymorth ar gyfer pobl sydd â phroblemau gofal cymhleth sy'n ymwneud yn bennaf ag iechyd. Ystyrir bod unigolyn yn gymwys i gael GIP pan fydd ei angen sylfaenol yn angen iechyd: 'y dull angen iechyd sylfaenol'. Penderfynir ar hyn drwy ystyried pedwar nodwedd allweddol angen: natur, dwysedd, cymhlethdod a natur anrhagweladwy. Y GIG yng Nghymru, drwy fyrddau iechyd lleol (BILI), sy'n gyfrifol am ddarparu GIP, er bod rolau i eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol (ALI), yn y broses hon. Nodir y trefniadau presennol ar gyfer darparu GIP yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2014 (' Fframwaith 2014').
2. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad¹ ar fframwaith cenedlaethol diwygiedig fel rhan o ymrwymiad hirsefydlog i adolygu'r trefniadau o fewn fframwaith 2014. Roedd Fframwaith 2014, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014, yn disodli Fframwaith 2010 ac yn ceisio mynd i'r afael â nifer o faterion a nodwyd ar y pryd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar fwy o berchenogaeth strategol, gwell cymorth i ymarferwyr a'r cyhoedd, proses asesu a chymhwysedd ddiwygiedig a threfniadau llywodraethu cadarn ar gyfer rheoli ôl-hawliadau. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar ddiwygiadau i Fframwaith 2014 (Fframwaith diwygiedig) a hefyd yr Adnodd Cymorth Penderfynu, a ddefnyddir fel rhan o unrhyw asesiad o gymhwysedd i dderbyn GIP.
3. Mae'r ymgynghoriad, a gynhaliwyd am 12 wythnos o 26 Mai 2019 i 21 Awst 2019, yn adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd yn cynorthwyo gyda phenderfyniadau polisi yn y dyfodol ynghylch gweithredu GIP yng Nghymru.
4. Byddwn yn rhannu'r fframwaith diwygiedig a'r Adnodd Cymorth Penderfynu gyda holl aelodau staff yr ALLau a'r BILlau sy'n ymwneud ag asesiad yr unigolyn neu'r broses o ddarparu GIP (ymarferwyr) ym mis Rhagfyr 2019, yn dilyn unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori. Bydd hyn yn sicrhau bod y dogfennau ar gael yn ystod cyfnod gweithredu, pan fydd pecyn hyfforddi cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i ymarferwyr cyn cyhoeddi'r fframwaith terfynol a'r Adnodd Cymorth Penderfynu ym mis Ebrill 2020. Bydd Fframwaith Perfformiad

¹ <https://llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-drafft-ar-gofal-iechyd-parhaus-y-gig>

GIP diwygiedig a deunyddiau diwygiedig ac ychwanegol ar gyfer ymarferwyr a deunydd sydd newydd ei ddatblygu ar gyfer y cyhoedd yn cael eu cyhoeddi i gefnogi cyhoeddi'r Fframwaith diwygiedig, fel y nodir ym mharagraffau 38 i 39.

CEFNDIR

Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus 2014

5. Gofal Iechyd Parhaus (GIP) yw'r enw a roddir ar becyn o ofal a chymorth a roddir gan y GIG, drwy fyrddau Iechyd Lleol, i bobl y mae eu hanghenion yn ymwneud yn bennaf ag Iechyd. O ystyried y mathau hyn o bwysau, nodwyd GIP fel maes gofal Iechyd a fyddai'n elwa o ddull gweithredu wedi'i gydgysylltu'n genedlaethol ac ers 2010 mae wedi'i gefnogi gan ganllawiau'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r fframwaith yn cwmpasu oedolion sy'n 18 oed a throsodd, ac yn egluro polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cymhwysedd i gael GIP a chyfrifoldebau BILlau ac ALLau. Mae'n cyflwyno proses i'r GIG ei defnyddio, gan weithio gydag ALLau partner, er mwyn asesu anghenion Iechyd, penderfynu ar gymhwysedd i gael GIP a darparu gofal priodol. Mae'n ofynnol i bob BILl ac ALL yng Nghymru ei ddilyn.
6. Gellir asesu bod gan unigolyn angen Iechyd sylfaenol a hawl i dderbyn GIP mewn amrywiaeth o leoliadau y tu allan i'r ysbyty, megis yn ei gartref ei hun neu mewn cartref gofal. Os yw'r unigolyn yn byw mewn cartref gofal, bydd y GIG yn gyfrifol am ariannu'r pecyn Iechyd a gofal cymdeithasol llawn. Os yw'r unigolyn yn byw gartref, bydd y GIG yn talu am ofal Iechyd (er enghraifft, gwasanaethau gan nyrs gymunedol neu therapydd arbenigol) a gofal cymdeithasol, ond nid yw hyn yn cynnwys costau bwyd, llety neu gymorth cyffredinol yn y cartref.
7. Mae gan gyrrff y GIG ac ALLau gyfrifoldebau i sicrhau bod yr asesiad o gymhwysedd ar gyfer GIP, a'r ddarpariaeth ohonynt, yn digwydd mewn modd cyson a bod y broses yn cael ei rheoli'n weithredol er mwyn osgoi oedi diangen.
8. Os nad yw unigolyn yn bodloni cymhwysedd i gael GIP, gall barhau i fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau Iechyd a gofal cymdeithasol sy'n debygol o fod yn rhan o wasanaethau prif ffrwd neu sydd wedi'u cynllunio'n unigol i ddiwallu angen penodol.
9. Diwygiwyd y Fframwaith ddiwethaf yn 2014 a gwnaed nifer o newidiadau sylweddol bryd hynny. Ymhlith y rhain roedd; atgyfnerthu materion llywodraethu; darpariaethau cryfach ar gyfer y Gymraeg; y broses asesu a'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chofnodi drwy'r Adnodd Cymorth Penderfynu; rôl gryfach i ofalwyr; adolygiadau o benderfyniadau a gwell trefniadau o ran ôl-hawliadau. Hefyd, nododd ac amlinellodd gysylltiadau â meysydd polisi ehangach y tu allan i GIP, megis Iechyd meddwl, anabledau dysgu a Thaliadau Uniongyrchol.

10. Bwriedir i'r Fframwaith sicrhau ymarfer cyson yng Nghymru ac y gall oedolion â phroblemau gofal cymhleth gael y lefel o ofal a chymorth sy'n briodol i'w hanghenion.

Egwyddorion cyffredinol GIP

11. Un rhan yn unig o gontinwwm o wasanaethau yw GIP y mae angen i ALLau a chyrff y GIG allu eu darparu i gefnogi pobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Mae GIP yn un agwedd ar ofal y gall fod ar bobl ei angen o ganlyniad i anabledd, damwain neu salwch, i ddiwallu anghenion iechyd corfforol a meddyliol.
12. Mae'r Fframwaith diwygiedig yn ei gwneud yn glir y dylai'r holl broses o bennu cymhwysedd a chynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd parhaus y GIG fod yn 'canolbwyntio ar yr unigolyn'. Mae hyn yn hanfodol gan y bydd unigolion sy'n mynd drwy'r broses hon yn agored iawn i niwed yn eu bywydau. Mae'n ddigon posibl y bydd angen gwneud dewisiadau anodd ac arwyddocaol, felly mae grymuso unigolion ar yr adeg hon yn hanfodol.
13. Felly, dylid egluro'r broses asesu ac adolygu barhaus i'r unigolyn, ei deulu, gofalwr neu gynrychiolydd o'r cychwyn a'i chadarnhau yn ysgrifenedig. Gall yr holl asiantaethau ac ymarferwyr gael gafael ar adnoddau cyfathrebu a llythyrau templed ar gyfer gwahanol gamau'r broses [drwy wefan Gwybodaeth a Chymorth Gofal Cymhleth](#) (gwefan CCISS). Sefydlwyd y wefan ar gyfer ymarferwyr fel rhan o'r broses o weithredu Fframwaith 2014.
14. Os nad oes gan unigolyn y gallu i wneud dewisiadau hyddysg, o dan God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol, gall staff ddatgelu gwybodaeth am yr unigolyn, cyn belled â bod hynny er lles yr unigolyn dan sylw, neu fod rheswm cyfreithlon dros wneud hynny.
15. Ni ddylid ystyried GIP yn drefniant parhaol. Dylai darpariaeth gofal fod yn seiliedig ar anghenion, a'i chynllunio i gynyddu gallu ac annibyniaeth i'r eithaf. Dylai unrhyw becyn gofal, waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu, gael ei adolygu'n rheolaidd mewn partneriaeth â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu ei anghenion.

ADOLYGIAD O FFRAMWAITH 2014

Cwmpas yr adolygiad

16. Pennwyd cwmpas yr adolygiad hwn gan y Bwrdd Gofal Cymhleth Cenedlaethol. Roedd ganddo drosolwg strategol ar gyfer GIP ac roedd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru, ynghyd â swyddogion o Lywodraeth Cymru. Barn y Bwrdd oedd bod yr egwyddorion sy'n sail i'r Fframwaith presennol yn gadarn ac y dylai'r adolygiad, felly, geisio egluro, mireinio neu ychwanegu at y Fframwaith presennol fel y bo'n briodol. Mae'r Bwrdd bellach wedi dod i ben ac mae'r cyfrifoldeb am lywodraethu a goruchwylio GIP yn strategol yn nwylo'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol bellach. Mae'r Bwrdd hwn yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r GIG, ALLau, darparwyr gofal, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru.
17. Sefydlodd Llywodraeth Cymru weithgor bach i helpu i adolygu'r fframwaith. Cyfarfu'r grŵp sawl gwaith yn ystod 2017 a 2018 i drafod newidiadau posibl i'r Fframwaith. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:
 - BILlau
 - ALLau
 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
 - cynrychiolwyr o'r trydydd sector

YMGYNGHORIAD

Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

18. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar-lein a'i ddsbarthu i amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau iechyd, llywodraeth leol a gofal cymdeithasol, yn ogystal â grwpiau sy'n cynrychioli cleifion, a'r cyhoedd. Roedd pawb yr ymgynghorwyd â nhw, i raddau amrywiol, yn rhanddeiliaid yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.
19. Cawsom ymatebion i'r ymgynghoriad o'r categorïau canlynol:
 - Aelodau'r cyhoedd
 - BILlau
 - ALLau
 - Cyrff gwasanaethau cyhoeddus
 - Grwpiau sy'n cynrychioli cleifion
 - Arolygiaethau
20. Cawsom 58 o ymatebion. Roedd rhai o'r ymatebion yn grynodedd o sylwadau rhanddeiliaid o sector penodol ac ni wnaeth pob un o'r ymatebwyr sylwadau ar bob cwestiwn a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori. Ymhellach, nid oedd rhai ymatebwyr yn rhoi atebion 'ie' neu 'na' uniongyrchol i bob cwestiwn. O dan yr amgylchiadau hyn, gwnaed pob ymdrech i ddehongli a chynnwys yr hyn a fwriadwyd gan yr ymatebydd yn y ffigurau a ddyfynnir yn y crynodeb hwn.
21. Dewisodd nifer fach o ymatebwyr ymateb drwy lythyr ac nid drwy'r ffurflen ymgynghori, o dan yr amgylchiadau hyn, mae eu hymatebion wedi'u cynnwys yn y cwestiwn ymgynghori perthnasol lle bo hynny'n bosibl. Lle nad yw hyn wedi bod yn bosibl, mae eu hymateb wedi'i gynnwys yng nghwestiwn 11, a ddarparodd ar gyfer ymatebion y tu allan i'r cwestiynau a osodwyd gan yr ymgynghoriad.
22. Mae pob dyfyniad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr iaith wreiddiol oni nodir yn wahanol.

Canfyddiadau allweddol

23. Yn gyffredinol, cafodd y Fframwaith diwygiedig dderbyniad da ac roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno bod y ddogfen yn rhoi eglurhad a manylder ychwanegol mewn rhai meysydd allweddol ac fe groesawyd hyn. Roedd ychydig o'r farn bod rhai meysydd angen eu hegluro'n fanylach er mwyn rhoi GIP ar waith yn llwyddiannus. Amlygwyd nifer o ganfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

Rolau a chyfrifoldebau

24. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith y gallai rolau a chyfrifoldebau penodol BILlau ac ALLau ym mhob rhan o'r broses asesu GIP fod yn gliriach.

Adnodd Cymorth Penderfynu

25. Codwyd nifer o bryderon ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r Adnodd a oedd, ym marn yr ymatebwyr, yn gyfystyr â newid y trothwy cymhwysedd, nad oedd wedi'i fandadu.

Cyllidebau Cyfun

26. Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r rheoliadau cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i BILlau ac ALLau weithio gyda'i gilydd a darparu gwasanaethau di-dor, gan gynnwys cyllidebau cyfun. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r Fframwaith diwygiedig roi mwy o eglurder ar sut y gellid cyflawni hyn yn ymarferol mewn perthynas â GIP.

Taliadau Uniongyrchol

27. Symiau ariannol yw taliadau uniongyrchol a wneir gan awdurdodau lleol i unigolion, neu eu cynrychiolydd, i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth cymwys, neu gefnogi anghenion yn achos gofalwr. Mae taliadau uniongyrchol yn galluogi pobl i ddefnyddio eu llais a'u rheolaeth i benderfynu sut, pryd a phwy sy'n eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth cymwys. Mae rhai ymatebwyr wedi pwysleisio y gall pontio i GIP arwain at bobl yn colli rheolaeth ar y ffordd mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu darparu, sy'n gallu bod yn niweidiol i'r unigolion a'i les. Mae'r Fframwaith diwygiedig yn nodi beth ddylai ALLau a BILlau ei gwneud yn yr amgylchiadau hyn, yn cynnwys llunio pecynnau gofal ar y cyd i sicrhau nad yw unigolion yn colli eu llais a'u rheolaeth. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai anaml iawn y câi hyn ei gyflawni mewn gwirionedd. At hynny, roedd rhai o'r farn bod y Fframwaith diwygiedig yn anghyson ac felly'n agored i ddehongliad ar y pwnc hwn.

Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol

28. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru ystyried treialu Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol fel ateb posibl i ganiatáu i dderbynwyr GIP gael cyllid ar gyfer eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai hyn olygu bod unigolyn, a oedd wedi bod yn gymwys i gael taliadau uniongyrchol yn

flaenrol, yn gallu parhau i dderbyn gofal gan yr un staff a oedd yn ei ddarparu cynt, os yw'r unigolyn yn dymuno hynny. Cafwyd awgrym o dreial ar gyfer grŵp cyfyngedig – megis rhai ag anabledd dysgu.

Gofal Nyrsio a Ariennir

29. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am adolygiad brys o'r polisi a'r canllawiau presennol ar gyfer gofal nyrsio a rennir gan eu bod yn 15 oed ac nad oeddent yn adlewyrchu polisi na safbwyntiau statudol presennol o reidrwydd.

YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Gweithredu

Cwestiwn 1: Yn ogystal â diwygio'r fframwaith, rydym yn rhoi pwyslais cryf ar sut y caiff ei roi ar waith yn effeithiol. A oes meysydd penodol yr hoffech eu gweld yn cael sylw yn y deunyddiau a ddatblygir er mwyn helpu i roi'r Fframwaith ar waith?

30. Cafwyd 49 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 30 (61%) yn cytuno bod yna ddeunyddiau ychwanegol yr hoffent eu gweld yn cael eu datblygu er mwyn helpu i roi'r Fframwaith ar waith, roedd 17 (35%) yn cytuno'n rhannol a 2 (4%) yn anghytuno.

Crynodeb o'r ymatebion

31. Mae'r sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n rhannol gytuno wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- Cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr y dylai'r broses o weithredu'r Fframwaith diwygiedig gael ei chefnogi gan sesiynau hyfforddi ar y cyd rhwng y BILlau ac ALLau, gyda digwyddiadau dysgu'n cael eu cynnal ledled Cymru cyn rhoi'r Fframwaith diwygiedig ar waith. Hefyd, dylid datblygu rhaglen dreigl o hyfforddiant ar gyfer staff newydd a hyfforddiant gloywi i'r staff presennol ar bob agwedd ar y broses GIP.
- Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn croesawu cyfnod gweithredu er bod rhai'n nodi nad oedd y cyfnod gweithredu yn ystod cyflwyno Fframwaith 2014 wedi llwyddo i sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn gyson ar draws pob BILI ac ALI. Roedd rhai o'r farn mai dim ond drwy broses archwilio GIP gryfach a thryloyw y gellid cyflawni hyn.
- Awgrymodd rhai y dylai gwefan y CCISS gynnwys deunyddiau sydd ar gael i'r holl ymarferwyr a sefydliadau sy'n ymdrin â GIP. Dylai hyn gynnwys protocolau

arfer gorau er mwyn osgoi anghysondeb mewn perthynas ag Adran 117 (o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983). Roedd rhai o'r farn bod y Fframwaith diwygiedig yn darparu eglurder o ran GIP ac Adran 117, ond roedd angen mwy o eglurder ynghylch y rhyngwyneb rhwng Adran 117 a Gofal Nyrsio a Ariennir.

- Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r rhestr wirio, sef adnodd sgrinio GIP er mwyn helpu ymarferwyr i nodi unigolion a allai fod angen asesiad llawn o'u cymhwysedd i gael GIP. Roedd rhai yn ystyried y dylid darparu hyfforddiant i'r holl staff er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu'n gyson. Ystyriwyd hefyd y dylid cynnwys defnydd o'r rhestr wirio yn y broses archwilio i werthuso'r defnydd a wneir ohoni. Gofynnodd rhai am fwy o eglurder ynghylch pa ymarferwyr ddylai gwblhau asesiad rhestr wirio yn ogystal â'r broses i'w dilyn pan fo canlyniad yr asesiad rhestr wirio yn destun dadl.

Ymateb Llywodraeth Cymru

32. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda BILlau ac ALLau i gynhyrchu pecyn hyfforddi cynhwysfawr i'w ddarparu i bob aelod o staff BILl ac ALl sy'n ymwneud â'r broses GIP yn ystod y cyfnod gweithredu, er mwyn sicrhau bod y Fframwaith diwygiedig yn cael ei weithredu'n effeithiol, yn gyson ac yn deg. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid hefyd i adolygu'r fframwaith perfformiad er mwyn sicrhau bod GIP yn cael ei ddarparu'n effeithiol.
33. Yn ystod y cyfnod gweithredu, byddwn yn ailwampio gwefan bresennol CCISS i sicrhau bod yr holl ymarferwyr perthnasol yn gallu cael gafael ar y deunyddiau cywir er mwyn gallu darparu GIP yn effeithiol. Byddwn hefyd yn ychwanegu adran i gynnwys deunyddiau sy'n ymwneud â phontio o Ofal Parhaus Plant a Phobl Ifanc i GIP Oedolion. Byddwn yn monitro'r wefan ac yn ei chadw'n gyfoes.
34. O ran eglurder ar y rhyngwyneb rhwng A117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a Gofal Nyrsio a Ariennir, rydym yn bwriadu mynd i'r afael â hyn yn yr adolygiad o bolisi Gofal Nyrsio a Ariennir, fel y nodir ym mharagraff 76. O ran y rhestr wirio, byddwn yn ailystyried y geiriad yn y fframwaith i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n briodol.

Cwestiwn 2: Mae'r Fframwaith GIP fel y mae ar hyn o bryd yn ddogfen dechnegol sydd wedi'i hanelu at weithwyr proffesiynol arbenigol sy'n goruchwylio asesiadau a'r gwaith o ddarparu gofal. Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y posibilrwydd o gyhoeddi Fframwaith symlach wedi'i anelu at ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Croesewir sylwadau ar ei briodoldeb, gan gynnwys awgrymiadau ynghylch fformat, cynnwys ac arddull.

35. Cafwyd 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Cytunodd 37 (82%) y dylid datblygu Fframwaith symlach wedi'i anelu at ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau am y rhesymau canlynol:

Crynodeb o'r ymatebion

- Cytunodd nifer o ymarferwyr y byddai fersiwn symlach yn ddefnyddiol am sawl rheswm. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod y byddai cynhyrchu hyn yn ddarn sylweddol o waith gan fod GIP yn faes cymhleth. At hynny, gan fod y ddogfen dechnegol gyfredol yn gymhleth (i ymarferwyr ac unigolion) mae'n her i staff y GIP wrth gynghori a chefnogi unigolion, yn enwedig wrth iddynt orfod dehongli ac egluro mân wahaniaethau'r Fframwaith.
 - Roedd cymysgedd o weithwyr proffesiynol, grwpiau sy'n cynrychioli'r cyhoedd a chleifion yn cytuno y byddai fersiwn symlach o'r fframwaith yn ddefnyddiol iawn i'r cyhoedd. Byddai'n sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau, a'r hyn y mae ganddynt hawl gyfreithiol iddo, fel nad ydynt yn dibynnu ar wybodaeth, ymwybyddiaeth a gallu ymarferwyr i egluro'r broses GIP iddynt. Cytunodd nifer o ymatebwyr y byddai'n hanfodol cynhyrchu hyn ar y cyd â grwpiau sy'n cynrychioli cleifion, unigolion a'u teuluoedd, gofalwyr a chynrychiolwyr.
 - Roedd yr ymatebwyr yn croesawu cynnwys newydd ar ofalwyr yn y fframwaith diwygiedig. Awgrymodd rhai y dylai dogfennau GIP gynnwys nodyn atgoffa i roi gwybod i'r gofalwr am ei hawl i gael asesiad gofalwr gan yr ALI neu'r BILI, fel y nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
 - Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod ymwybyddiaeth o GIP yn gyfyngedig ymhlith y cyhoedd ac y dylid lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd wrth gyhoeddi'r Fframwaith diwygiedig.
36. Darparwyd y rhesymau canlynol gan y rhai nad oeddent yn cytuno y dylid llunio fersiwn symlach o'r Fframwaith diwygiedig:
- Mae gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd eisoes yn bodoli mewn taflenni gwybodaeth GIP i'r cyhoedd. O ystyried mai dogfen dechnegol yw'r Fframwaith diwygiedig, gallai fersiwn symlach ar gyfer ymarferwyr neu'r cyhoedd greu risg o wanhau gwybodaeth gymhleth, gan gyflwyno darlun anghywir o'r broses a darpariaeth anghyson.

Ymateb Llywodraeth Cymru

37. Ar y cyfan mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai cynhyrchu deunyddiau ychwanegol yn fwy buddiol na fersiwn symlach o'r fframwaith ar gyfer ymarferwyr.

Gallai hyn gynnwys protocolau arfer gorau a chwestiynau cyffredin yn ymwneud â meysydd mwy dadleuol yn y broses GIP. Byddai hyn yn negyddu'r risg o wanhau gwybodaeth gymhleth iawn a allai arwain at weithredu'r Fframwaith diwygiedig mewn modd anghyson.

38. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai aelodau'r cyhoedd allu cael gafael ar ganllaw GIP cynhwysfawr fel eu bod yn gwbl ymwybodol o'r hyn i'w ddisgwyl o ddechrau proses asesu GIP. Felly, byddwn yn gweithio gyda phobl sydd wedi bod drwy'r broses asesu GIP a grwpiau sy'n cynrychioli cleifion i ddatblygu llyfryn un stop ar gyfer GIP. Bydd yn egluro'r daith y bydd unigolyn yn ei chymryd yn y broses o asesu a darparu GIP gam wrth gam. Rydym yn disgwyl y byddai hyn yn cynnwys siart llif, gwybodaeth am hawliau'r unigolyn ar bob cam o'r broses a gwybodaeth am y sefydliadau cyfrifol ym mhob cam. Gallai gynnwys gwybodaeth am sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau eirioli a chymorth a chyingor hefyd. Bydd y canllaw cynhwysfawr hwn, a fydd ar gael yn ddwyieithog ac mewn fformat hawdd i'w ddarllen hefyd, yn grymuso'r unigolyn a'i ofalwr i gymryd rhan lawn yn y broses asesu ac mewn penderfyniadau am y cymorth y maent yn ei dderbyn.
39. Ein bwriad yw cyhoeddi llyfryn y GIP i aelodau'r cyhoedd ym mis Ebrill 2020 i gydfynd â chyhoeddi'r Fframwaith diwygiedig. Byddwn yn rhannu'r cyhoeddiadau hyn yn eang â'r cyhoedd ac ymarferwyr i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Cwestiwn 3: A yw'r fframwaith arfaethedig yn rhoi digon o sicrwydd ynglŷn â chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, BILlau a'u partneriaid am GIP, eu perchnogaeth ohono a'u trefniadau ar gyfer ei lywodraethu?

40. Cafwyd 46 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 12 (26%) yn cytuno bod y Fframwaith diwygiedig yn rhoi digon o sicrwydd ynglŷn â chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, BILlau a'u partneriaid am GIP, a 17 (37%) yn cytuno'n rhannol a 17 (37%) ddim yn cytuno o gwbl.

Crynodeb o'r ymatebion

41. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y fframwaith yn rhoi digon o sicrwydd ynglŷn â chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, BILlau a'u partneriaid am GIP. Dyma grynodeb o'r awgrymiadau a gafwyd ynghylch pa newidiadau neu ychwanegiadau y dylid eu gwneud:
- Awgrymodd rhai ymatebwyr fod y fframwaith diwygiedig yn ddryslyd o ran rolau a chyfrifoldebau ALLlau a BILlau ar gyfer meysydd fel y rhestr wirio, cyllidebau cyfun a thaliadau uniongyrchol.

- Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y byddai fframwaith atebolrwydd arall (sy'n rhoi manylion am gyfrifoldeb ac atebolrwydd sefydliadau) yn darparu eglurder a thryloywder i'r broses GIP. Yn ôl rhai ymatebion, pan fydd asesiad neu ddarpariaeth GIP yn cael eu gohirio, dylai'r unigolyn wybod pwy sy'n gyfrifol am yr oedi hwnnw a beth yw'r goblygiadau iddo, a'r sefydliadau cyfrifol.
- Awgrymodd ALLau eu bod yn awyddus i gyfrannu at ddiwygiadau i fframwaith perfformiad GIP. Byddent yn hoffi cael y cyfle i weld adroddiadau chwarterol BILlau hefyd. Maent yn awgrymu ymhellach y dylai'r broses sicrhau ansawdd y mae BILlau yn ei dilyn gynnwys pob penderfyniad am GIP ac nid y rhai sy'n gymwys yn unig, er mwyn cael darlun cywir o sut y caiff GIP ei ddarparu yng Nghymru. Awgrymwyd hefyd y dylai dulliau sicrhau ansawdd y BILl gael eu cynnwys fel atodiad i'r Fframwaith diwygiedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

42. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ymhellach â BILlau ac ALLau, er mwyn darparu mwy o eglurder yn y meysydd a amlygwyd, cyn cyhoeddi'r Fframwaith diwygiedig.
43. Datblygwyd y Fframwaith Perfformiad GIP presennol i nodi trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer GIP. Mae'n rhoi sicrwydd bod byrddau iechyd yn cydymffurfio â Fframwaith 2014. Rydym eisoes wedi dechrau adolygu'r fframwaith perfformiad presennol, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Rydym wedi cytuno ar ddull gweithredu diwygiedig gyda'r Bwrdd Gofal Cymorth Cenedlaethol (NCCB) i ddal perfformiad a fyddai'n safoni gofynion ar draws y byrddau iechyd ac yn darparu mecanwaith sicrhau mwy cynhwysfawr ar gyfer Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gweithio gyda BILlau ac ALLau yn ystod y cyfnod gweithredu i gwblhau'r fframwaith perfformiad, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r adroddiadau archwilio. Rydym yn bwriadu cyflwyno hyn ym mis Ebrill 2020 ar y cyd â'r Fframwaith GIP diwygiedig.

Cwestiwn 4: Pa ddulliau gweithredu y gellir eu rhoi ar waith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn datblygu gwaith partneriaeth rhwng y BILlau, ALLau a phartneriaid eraill ymhellach mewn perthynas â GIP?

Crynodeb o'r ymatebion

44. Cafwyd 45 o ymatebion i'r cwestiwn hwn ac fe'u crynhoir isod:

- Cytunodd nifer o ymatebwyr y byddai gweithio ar y cyd i gynhyrchu protocolau ar gyfer pecynnau gofal ar y cyd, cyllidebau cyfun ac ati yn helpu i ddatblygu gwaith partneriaeth ymhellach rhwng BILlau, ALLau a phartneriaid eraill yn lleol. Roedd rhai o'r farn y byddai cael byrddau partneriaeth rhanbarthol i fod yn gyfrifol am ddatblygu a darparu hyfforddiant parhaus ar y cyd i staff BILlau ac ALLau sy'n darparu GIP yn hyrwyddo gwaith partneriaeth agosach. Roedd rhai o'r farn bod angen canolbwyntio mwy, ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, ar adrodd yn gywir ar y broses asesu GIP, penderfyniadau ar gymhwysedd, anghenion iechyd cyffredin a phrofiadau'r 'defnyddiwr'.
- Roedd ALLau o'r farn y dylent gyfrannu at argymhelliad y tîm amlddisgyblaethol ar gymhwysedd yn ogystal â chyfarfod y tîm amlddisgyblaethol lle mae'r Adnodd Cymorth Penderfynu wedi'i gwblhau. Ar hyn o bryd, caiff yr argymhelliad hwn ei wneud ar wahân i unrhyw drafodaeth gyda'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd a'i gyflwyno i'r panel sicrhau ansawdd er mwyn iddo gytuno arno. Mae ALLau yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol at ddibenion sicrhau nad oes unrhyw oedi oherwydd anghydfod ynghylch pa gorff sy'n gyfrifol am ariannu. Roeddent hefyd o'r farn y dylai fod yn orfodol iddynt fynychu pob cyfarfod cenedlaethol allweddol ynghylch GIP.

Ymateb Llywodraeth Cymru

45. Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod manteision presenoldeb ALI yng nghyfarfod argymhellion y tîm amlddisgyblaethol gydag ALLau a BILlau. Cytunwn y byddai o fudd i ALLau fynychu cyfarfodydd a grwpiau allweddol yn ymwneud â darparu GIP. Ers i'r NCCB ddod i ben, mae ei swyddogaethau wedi 'u trosglwyddo i'r **NCB y mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr ALI**. Bydd hyn yn galluogi'r ddau barti i gydweithio ar ddulliau cenedlaethol, e.e. mewn perthynas â pheynnau gofal ar y cyd a chronfeydd cyfun. Byddwn yn ystyried presenoldeb ALLau mewn cyfarfodydd arweinwyr GIP hefyd.

Mwy o eglurder ac arddull gyflwyniadol

Cwestiwn 5: Teimlwyd nad oedd rhai agweddau ar y Fframwaith yn ddigon clir. A ydym wedi nodi'r meysydd cywir yn y Fframwaith ac wedi mynd i'r afael â nhw er mwyn ei gwneud yn fwy eglur?

46. Roedd 39 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 10 (26%) yn cytuno bod y Fframwaith yn fwy eglur ac 20 (51%) yn cytuno'n rhannol a 9 (23%) yn anghytuno.

Crynodeb o'r ymatebion

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn pryderu bod diffyg eglurder mewn rhai meysydd o'r Fframwaith diwygiedig o hyd. Roeddent yn awgrymu nad oedd gwelliannau'n mynd yn ddigon pell i egluro'r mater, neu eu bod yn anwybyddu materion penodol yn llwyr. Roedd enghreifftiau'n cynnwys diben y rhestr wirio, pryd ddylid ei chwblhau a gan bwy a'r amgylchiadau lle gellid herio'r penderfyniad.
- Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r cynnig yn y Fframwaith diwygiedig, sef pan nad yw BILI yn cytuno â'r argymhelliad a wnaed gan y tîm amlddisgyblaethol, dylai'r BILI ofyn am dystiolaeth bellach gan y tîm amlddisgyblaethol. Roedd rhai o'r farn y dylid dileu'r diwygiad hwn ac y dylai'r fframwaith nodi y dylai'r BILlau dderbyn argymhellion a wneir gan y tîm amlddisgyblaethol oni bai bod amgylchiadau eithriadol, fel y nodir yn Fframwaith 2014.
- Roedd y mwyafrif o ymatebwyr o'r farn nad oedd y Fframwaith diwygiedig yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y broses i'w defnyddio gan BILlau ac ALLau lle mae unigolyn sydd wedi derbyn taliadau uniongyrchol yn dod yn gymwys i gael GIP. Mae'r Fframwaith diwygiedig yn amlinellu cyfrifoldebau ALLau a BILlau i sicrhau nad yw unigolion yn colli eu llais a'u rheolaeth pan fyddant yn dymuno cadw'r staff sy'n darparu eu gofal. Fodd bynnag, byddai rhai yn awgrymu y byddai canllawiau arfer gorau ar sut i gyflawni hyn yn ddefnyddiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

47. Er bod y mwyafrif o'r ymatebion yn croesawu'r eglurder ychwanegol a geir yn y Fframwaith diwygiedig mewn nifer o feysydd, mae rhai meysydd o hyd lle y cafwyd ceisiadau am ragor o eglurder. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ceisiadau hyn ac yn diwygio'r Fframwaith diwygiedig lle y bo'n briodol i gyflawni'r eglurder pellach hwn gan gynnwys y cynnig yn y Fframwaith diwygiedig y gall BILI ofyn am ragor o dystiolaeth gan y tîm amlddisgyblaethol.
48. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda BILlau, ALLau ac asiantaethau eraill fel bo angen i ystyried opsiynau i alluogi pobl i gadw eu llais a'u rheolaeth dros eu gofal wrth bontio rhwng gofal cymdeithasol a GIP. Mae gweithlu hyderus, hyddysg wedi'i rymuso yn allweddol i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Byddwn yn adolygu ac yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau deddfwriaethol sy'n parhau i atal byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol rhag defnyddio cronfeydd cyfun i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Byddwn yn edrych ar ddichonoldeb cyflwyno ymddiriedolaethau defnyddwyr annibynnol yng Nghymru fel un dull i gynorthwyo unigolion i reoli eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

Y disgwyliad clir a diamwys yng Nghymru felly fydd gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig di-dor wedi'i bersonoleiddio sy'n galluogi unigolyn i gadw parhad o ran ei lais a'i reolaeth, yn cynnwys gallu parhau i dderbyn gofal gan yr un staff a oedd yn ei ddarparu cynt, os yw'r unigolyn yn dymuno hynny.

Y Broses Asesu

Cwestiwn 6: Mae'r agweddau canlynol wedi cael eu diwygio'n sylweddol, a ydych yn cytuno bod y meysydd hyn, fel y'u cynigir, yn addas at y diben?

- Y Broses asesu,
- Ystyried cymhwysedd
- Defnyddio pecynnau cymorth, yn enwedig y Rhestr Wirio a'r Adnodd Cymorth Penderfynu

49. Cafwyd 48 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 10 (21%) yn cytuno bod y meysydd hyn yn addas i'r diben, 28 (58%) yn cytuno'n rhannol a 10 (21%) ddim yn cytuno bod y meysydd hyn yn addas i'r diben.

Crynodeb o'r ymatebion

50. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu cynllun a threfn newydd y Fframwaith, sydd bellach yn adlewyrchu'r broses GIP ei hun o'r dechrau i'r diwedd. Roedd rhai BILlau yn cefnogi'r Adnodd Cymorth Penderfynu a aildrefnwyd. Roedd rhai'n croesawu'r gofyniad y dylai BILlau hysbysu unigolion yn ysgrifenedig am eu canlyniad o ran cymhwysedd i gael GIP, gan gynnwys copi o'u Hadnodd Cymorth Penderfynu. Awgrymodd rhai y dylid monitro hyn a'i adrodd ym mhroses archwilio'r GIP hefyd. Roedd grŵp cynrychiolwyr cleifion yn croesawu'r ffaith ei fod yn cynnwys yr egwyddorion sylfaenol gan eu bod yn helpu i ddangos yr ysbryd y disgwylir i ymarferwyr gynnal y broses GIP ynddo ac yn awgrymu eu hintegreiddio yn y Fframwaith drwyddo draw.

51. Cynigiodd yr ymatebwyr hynny a oedd yn credu bod angen adolygu pellach yn y meysydd hyn y rhesymau canlynol:

- Gofynnodd nifer o ymatebwyr am i siart llif y broses GIP ac amserlenni gael eu cynnwys yn y Fframwaith. Roedd rhai'n gofyn am ganllawiau pellach hefyd ar yr amgylchiadau lle byddai unigolyn oedd ag asesiad rhestr wirio cadarnhaol yn cael cymorth cyn cael asesiad Adnodd Cymorth Penderfynu llawn.

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y datganiad yn y Fframwaith diwygiedig y dylai aelodau'r tîm amlddisgyblaethol sy'n ymwneud â chwblhau Adnodd Cymorth Penderfynu fod wedi bod yn rhan o'r gwaith o asesu a thrin yr unigolyn, 'lle bo modd'. Roeddent o'r farn y dylai hyn fod yn ofyniad gorfodol i roi sicrwydd i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr neu gynrychiolwyr bod y tîm amlddisgyblaethol yn deall anghenion yr unigolyn, ac wedi'u hasesu'n gwir.
- Mynegodd amrywiaeth o ymatebwyr bryderon ynghylch diwygio'r Adnodd Cymorth Penderfynu, yn enwedig o ran unffurfiaeth rhwng Cymru a Lloegr. Roedd llawer o'r farn bod y newidiadau arfaethedig i'r meysydd a'r gwelliannau i ddisgrifyddion yn yr Adnodd Cymorth Penderfynu yn newidiadau sylweddol a oedd yn gyfystyr â newid y trothwy GIP. Mae'n bosibl y gallai hyn gynyddu'r baich ar unigolion i sefydlu angen iechyd sylfaenol. Roedd ALLau o'r farn y gallai'r newidiadau hyn arwain at nifer o becynnau gofal a ariennir ar hyn o bryd gan y BILLau neu a ariennir ar y cyd rhwng y BILLau a'r ALLau, yn peidio â bod yn gymwys i gael GIP mwyach.
- Gan fod y drafodaeth ynglŷn â chymhwysedd yn seiliedig ar anghenion a phroses sy'n seiliedig ar dystiolaeth, roedd rhai ALLau a BILLau o'r farn y dylid diwygio'r pennawd 'Meysydd sgorio – lefelau angen' i ddweud 'asesu lefelau angen'.

Ymateb Llywodraeth Cymru

52. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai ychwanegu siart llif ar gyfer proses GIP i'r Fframwaith diwygiedig yn adnodd arweiniad defnyddiol i ymarferwyr. Fel y nodir ym mharagraffau 38, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu hyn yn y llyfryn GIP i aelodau'r cyhoedd hefyd.
53. Mewn perthynas â'r rhestr wirio, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod gweithredu, er mwyn sicrhau bod geiriad y Fframwaith diwygiedig yn glir. Byddwn yn ystyried hyfforddiant pellach ar ddefnyddio'r rhestr wirio hefyd i sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu'n gyson ac yn deg ledled Cymru.
54. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylai'r fframwaith barhau i ddweud y dylai aelodau staff y tîm amlddisgyblaethol fod wedi cymryd rhan yn y gwaith o asesu a thrin yr unigolyn 'lle bo modd', ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai hyn yn digwydd er mwyn sicrhau nad oedd oedi wrth asesu unigolyn. Byddwn yn diwygio'r testun i adlewyrchu hyn.
55. Rydym yn nodi'r pryderon am newidiadau i'r meysydd a'r disgrifyddion yn yr Adnodd Cymorth Penderfynu. Er mwyn sicrhau nad yw'r trothwy cymhwysedd yn

newid, byddwn yn cadw'r meysydd cyfredol yn Fframwaith 2014 ac yn ailystyried geiriad y disgrifyddion.

56. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd y cyfeiriad at y term 'sgorio' yn yr Adnodd Cymorth Penderfynu, ac unrhyw ddogfennau GIP eraill, yn cael ei ddisodli gan 'lefelau angen' i adlewyrchu'r ffaith bod y broses cymhwysedd GIP yn asesiad sy'n canolbwyntio ar anghenion y person.

Cwestiwn 7: A ydych o'r farn bod unigolion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys ddigon yn y broses asesu wedi'i diweddarau?

57. Cafwyd 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 14 (33%) yn cytuno bod unigolion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys ddigon yn y broses asesu wedi'i diweddarau, 15 (34%) yn cytuno'n rhannol a 14 (33%) yn anghytuno.

Crynodeb o'r ymatebion

58. Dyma'r sylwadau gan y rhai a deimlai nad oedd teuluoedd yn cael eu cynnwys ddigon yn y broses hon:
- Dywedodd ambell grŵp oedd yn cynrychioli cleifion eu bod yn falch o weld bod cynnwys unigolion a'u teuluoedd yn neges allweddol yn y fframwaith diwygiedig. Fodd bynnag, teimlent fod angen rhoi hyn ar waith yn gyson ledled Cymru, gyda staff sy'n cynnal asesiadau GIP yn cael eu hyfforddi i wrando ar deulu, ffrindiau, gofalwyr ac eiriolwyr sy'n cefnogi'r person sy'n cael ei asesu. Soniwyd am unigolion a theuluoedd sy'n disgrifio'r cyfarfodydd asesu a gynhelir fel rhai 'brawychus' oherwydd nifer y bobl sy'n bresennol, yr iaith a ddefnyddiwyd a oedd yn cynnwys jargon ac acronymau proffesiynol. Dywedwyd hefyd ei bod yn ymddangos bod diffyg ystyriaeth i'r ffaith nad yw unigolion, gofalwyr nac eiriolwyr yn gyfarwydd â'r broses o reidrwydd ac nad oes pobl â gwybodaeth am yr unigolyn neu'r cyflwr yn bresennol yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

59. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod pob asesiad ar gyfer GIP yn cynnwys yr unigolyn, ei deulu, gofalwyr neu ei gynrychiolwyr yn llawn a'u bod yn cael eu cynnal yn yr ysbryd a nodir yn egwyddorion sylfaenol y Fframwaith. Rydym o'r farn bod y canllawiau priodol ar gyfer hyn wedi'u cynnwys yn y Fframwaith diwygiedig yn barod, ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyson ar draws byrddau iechyd. Rydym yn cytuno bod cyfathrebu gwell rhwng yr unigolyn neu ei gynrychiolydd a'r tîm

amlddisgyblaethol ynghyd â hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff y tîm amlddisgyblaethol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael asesiad GIP sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Os yw awdurdod lleol yn cydnabod bod angen eiriolaeth a chymorth ar unigolyn neu ei deulu, rhaid i'r ALI drefnu bod eiriolwr proffesiynol annibynnol ar gael i gynorthwyo'r unigolyn i gymryd rhan lawn ym mhob asesiad a phob proses.

60. Bydd cyflwyno llyfryn GIP newydd ar gyfer aelodau'r cyhoedd (a amlinellir ym mharagraff 38 i 39) yn helpu. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i unigolion a'u teuluoedd, gofalywyr a chynrychiolwyr ar beth i'w ddisgwyl, amserlenni, hawliau a sut i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth, gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Cysylltiadau â meysydd polisi ehangach

Cwestiwn 8: Yn eich barn chi, a yw'r fframwaith diwygiedig yn cysylltu'n dda â pholisi a chanllawiau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eraill? Os ydych wedi ymateb yn rhannol neu nac ydy, a allwch nodi beth rydych sydd ar goll a beth y dylem ei ychwanegu yn eich barn chi?

61. Cafwyd 44 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 15 (34%) yn cytuno bod y Fframwaith arfaethedig yn cysylltu'n dda â pholisi a chanllawiau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eraill, 18 (41%) yn cytuno'n rhannol ac 11 (25%) yn anghytuno.

Crynodeb o'r ymatebion

62. Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan ymatebwyr a oedd o'r farn y dylai fod cysylltiadau cryfach neu ychwanegol â pholisïau a chanllawiau:
- Gofynnodd rhai sylwadau sut roedd y Fframwaith diwygiedig yn cyd-fynd â pholisïau megis Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ac Unigrwydd ac Arwahanrwydd. Dywedodd rhai hefyd, er bod y Fframwaith diwygiedig yn cysylltu â'r delfrydau yn y Cynllun Gweithredu Dementia Cenedlaethol, y byddai gweithredu'n allweddol. Nodwyd y dylai'r Fframwaith diwygiedig grybwyll yn benodol bod asesiadau'n cael eu cydgysylltu, lle bo'n briodol, yn unol ag asesiadau ac adolygiadau eraill a gynhelir ar gyfer yr unigolyn. Bydd hyn yn sicrhau bod y Fframwaith yn cyd-fynd â'r canllawiau i gyrrff cyhoeddus a amlinellir mewn polisïau eraill a bod pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol yn ymgysylltu.
 - Roedd sylwadau eraill yn cynnwys ei bod yn siom bod y Fframwaith yn rhoi pwyslais mawr ar lechyd fel ymyriad meddygol ac yn methu â chydabod y

trawsgroesi a phwysigrwydd themâu model cymdeithasol o fewn y ddeddfwriaeth amrywiol gyfredol, megis y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.

- Er bod diwygiadau wedi cael eu gwneud i'r Fframwaith diwygiedig o ran pontio o GIP Gofal Parhaus Plant a Phobl Ifanc i GIP Oedolion, dywedodd nifer o ymatebwyr fod pryderon yn parhau nad oedd y broses bontio yn cefnogi pobl ifanc yn ddigonol o ran materion fel canllawiau clir ar y broses o adnabod unigolion ifanc sydd â sbardunau GIP posibl ac amserlenni. Gofynnodd rhai am sicrwydd bod y ddwy set o ganllawiau'n cael eu hystyried ar y cyd i sicrhau cydweithredu effeithlon rhwng gofal iechyd parhaus i blant ac oedolion, ac roedd rhai o'r farn y dylid cael system gymorth deg yn seiliedig ar angen, ac nid oedran.

Ymateb Llywodraeth Cymru

63. Mae ein gwaith parhaus gyda meysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru yn rhan hanfodol o'n gwaith yn datblygu a darparu polisi a Fframwaith Cenedlaethol GIP. Mae'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia yn goruchwylio'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gweithredu Dementia ac yn dwyn ynghyd y rhanddeiliaid a fydd yn allweddol i sicrhau gweithredu effeithiol. Bydd y cod ymarfer arfaethedig ar awtistiaeth yn cyfeirio at bolisi a fframwaith GIP fel y mae'n berthnasol i bobl awtistig. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd y mae polisiau a fframweithiau eraill yn cyd-fynd â'r Fframwaith ac a oes angen cyfeirio'n benodol at y rhain yn y Fframwaith.
64. Gall y cyfnod pontio rhwng GIP Gofal Parhaus Plant a Phobl Ifanc a GIP Oedolion fod yn amser anodd i deuluoedd, a dyna pam ei bod yn bwysig i ALLau a BILLau siarad â theuluoedd am y goblygiadau posibl ar ddechrau'r broses o gynllunio'r cyfnod pontio. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y Fframwaith diwygiedig sy'n egluro'r broses hon a gaiff ei hasesu drwy'r Fframwaith Perfformiad er mwyn sicrhau y caiff ei gweithredu'n gyson. Mae gwefan CCISS yn cynnwys Pecyn Pontio cynhwysfawr i bobl ifanc sy'n symud i fyd oedolion sy'n cynnwys canllaw i bobl ifanc, rhieni, straeon fideo, cynlluniau pontio mewn gwahanol fformatau ac mae'n cynnwys Protocol Pontio aml-asiantaeth hefyd ar gyfer Pobl Ifanc ag Anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddwn yn gweithio gyda BILLau, ALLau a grwpiau sy'n cynrychioli cleifion i adolygu'r deunyddiau hyn i sicrhau bod pobl ifanc a'u rhieni, eu gofalwyr neu eu cynrychiolwyr yn gwbl ymwybodol o'r broses bontio GIP.

Anghydfodau ac Apeliadau

Cwestiwn 9: A yw'r broses dau gam arfaethedig ar gyfer ôl-adolygiadau yn briodol ac yn ddigon cynhwysfawr?

65. Cafwyd 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 24 (56%) yn cytuno bod y broses dau gam arfaethedig ar gyfer ôl-adolygiadau yn briodol ac yn ddigon cynhwysfawr, 9 (21%) yn cytuno'n rhannol a 10 (23%) yn anghytuno.

Crynodeb o'r ymatebion

66. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno bod y broses dau gam arfaethedig ar gyfer ôl-adolygiadau yn briodol ac yn ddigon cynhwysfawr. Ychwanegodd llawer bod y broses yn glir ac y bydd yn effeithiol o ran rheoli ôl-hawliadau'n effeithlon mewn modd amserol a chynhwysfawr, gan gynnal tegwch ar yr un pryd.

67. Roedd yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno wedi darparu'r wybodaeth ganlynol:

- Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried bod angen mwy o eglurhad ynghylch y cyfnod treigl o 12 mis, e.e. a allai unigolion wneud sawl cais ar gyfer cyfnodau 12 mis gwahanol yn dyddio'n ôl i 1 Hydref 2014, neu a fyddai hawliadau ond yn cwmpasu'r 12 mis yn union cyn dyddiad y cais?
- Mynegodd rhai bryderon am gyflwyno cyfnod apelio o 28 diwrnod yn dilyn hysbysiad o gymhwysedd unigolyn i gael GIP. Roedd rhai'n croesawu'r cyflwyniad gan ei fod yn darparu amserlen gyson ar draws y BILlau ond yn ystyried nad oedd 28 diwrnod yn ddigon o amser i'r unigolyn neu ei gynrychiolydd brosesu'r wybodaeth, gofyn am arweiniad a chynghor a datblygu achos yn amlinellu eu cymhwysedd i gael cyllid. Awgrymwyd y byddai 6 mis yn fwy priodol. Tynnodd un ALI sylw at y ffaith bod gan unigolyn a oedd am apelio yn erbyn penderfyniad ar gymhwysedd gan awdurdod lleol, hyd at 12 mis i wneud hynny o dan Reoliadau Gwasanaethau Cymdeithasol (Cwynion) (Cymru) 2014.
- Roedd nifer o BILlau yn ystyried bod y cyfnod o dri mis i ddarparu'r gyflwyno cofnodion yn rhy hir fel rhan o'r cyfnod cyffredinol o chwe mis i gwblhau adolygiad, a gofynnwyd am gael llythyrau a phrotocolau enghreifftiol ar wefan CCISS i helpu gyda'r broses hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru

68. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r BILlau a'r ALLau ynghylch ceisiadau i egluro geiriad yn adrannau anghydfodau ac apeliadau y Fframwaith diwygiedig.

Cytunwn â'r sylwadau a gafwyd am y cyfnod apelio arfaethedig o 28 diwrnod. Rydym am ei gwneud yn glir yn y Fframwaith bod yr amserlen o 28 diwrnod yn ddim mwy nag amser i unigolyn hysbysu'r BILI ei fod yn apelio yn erbyn penderfyniad y BILI.

69. Nodwn fod Canllawiau cyfredol yr Adran Iechyd ar gyfer Awdurdodau Iechyd Strategol ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol mewn perthynas â'r terfynau amser i unigolion ofyn am adolygiad GIP o'u penderfyniad ynghylch cymhwysedd yn nodi bod rhaid gwneud hynny o fewn chwe mis i'r dyddiad y derbynasant eu penderfyniad cymhwysedd. Yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu ar yr amserlen fwyaf priodol i gyflwyno apêl (naill ai 6 mis neu 12 mis o bosibl). Nid ydym yn cynnig bod yr amserlenni hyn yn cael eu cymhwyso'n ôl-weithredol – byddant yn berthnasol i benderfyniadau ynglŷn â chymhwysedd a hysbysir ar ôl dyddiad cyflwyno'r Fframwaith diwygiedig yn unig. Byddwn yn sicrhau hefyd bod protocolau a thempledi llythyrau sy'n ymwneud â'r broses apelio yn cael eu cynnwys ar wefan CCISS, ac yn hygyrch i bob ymarferydd, er mwyn sicrhau bod proses apelio gyson a hwylus yn cael ei gweithredu.

Y Gymraeg

70. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Fframwaith diwygiedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 10 Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

- Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn cytuno y dylai'r Fframwaith diwygiedig fod mor gynhwysol â phosibl, gan gynnwys bod ar gael yn Gymraeg. Croesawodd un BILI y cyfeiriad at y Gymraeg yn y dogfennau ond gofynnodd am i gyfeiriadau at y Gymraeg gael eu hymgorffori yn y Fframwaith drwyddo draw. Un enghraifft oedd nodyn atgoffa yn adran y tîm amlddisgyblaethol, i roi cyfle i aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig yr henoed, neu'r rhai sydd â dementia, neu sy'n awtistig, siarad yn rhydd yn yr iaith y maent yn teimlo'n fwy cyfforddus yn ei defnyddio.
- Dywedodd rhai grwpiau sy'n cynrychioli cleifion mai gallu rhugl mewn ail iaith sy'n cael ei golli gyntaf mewn person sy'n cael diagnosis o ddementia. Felly, mae'n hanfodol sicrhau bod pobl sy'n byw gyda dementia yn gallu cael gafael ar wasanaethau yn eu dewis iaith. Roedd sylwadau eraill yn nodi nad yw'r ddarpariaeth Gymraeg yn cyrraedd y disgwyliadau sydd yn 'Mwy na Geiriau' ac nad yw'n cyrraedd y 'Cynnig Rhagweithiol' o bell ffordd, sef darparu gwasanaeth Cymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod mor weladwy â'r Saesneg.

- Mae sylwadau gan rai BILlau yn cadarnhau eu bod wedi cyflwyno cynnig rhagweithiol i'w prosesau. Dywedodd BILlau eraill y gallai dod o hyd i siaradwyr Cymraeg i fynychu cyfarfodydd asesu achosi oedi gydag asesiad unigolion, ond gwneir pob ymdrech i gael gafael ar staff a allai ddarparu ar gyfer hyn pe bai angen.
- Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y byddai'n fuddiol ymgorffori safonau'r Gymraeg ymhellach yn y Fframwaith diwygiedig. Gallai hyn gynnwys gofynion i gynllunio gwasanaethau GIP yn Gymraeg yn ogystal â chynllunio a datblygu'r gweithlu er mwyn darparu'r gwasanaethau hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru

71. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â phwysigrwydd diwallu anghenion iechyd pobl yn eu dewis iaith, mae hyn yn allweddol i grwpiau fel rhai sy'n dioddef o ddementia ac felly mae'n cael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu Dementia.
72. Byddwn yn cadarnhau yn y fframwaith y dylai'r rhestr wirio ac asesiad cymhwysedd GIP arwain gyda chynnig rhagweithiol i fodloni disgwyliadau 'Mwy na Geiriau'.
73. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gais am asesiad yn Gymraeg oedi cymhwysedd unigolyn i gael GIP gan fod Safonau penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ALLau a BILlau ddatblygu sgiliau Cymraeg eu gweithlu drwy gynllunio a hyfforddi. Byddwn yn cryfhau geiriad y Fframwaith diwygiedig i gynnwys gofynion safonau'r Gymraeg a 'Mwy na Geiriau', gan gynnwys y cynnig rhagweithiol. Ein bwriad yw y bydd yr holl gyhoeddiadau a fwriedir ar gyfer aelodau'r cyhoedd ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen ac yn ddwyieithog.

MATERION CYSYLLTIEDIG

Cwestiwn 11 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

74. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â gweithredu'r Fframwaith ac ymdriniwyd â hynny yng nghwestiwn 1. Gwnaed nifer o awgrymiadau hefyd am destun y Fframwaith diwygiedig a bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried fel rhan o'r ymarfer ymgynghori.

Y Camau Nesaf

75. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag ALLau a BILLau i ddatblygu pecyn hyfforddi cynhwysfawr i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith diwygiedig yn effeithiol, yn gyson ac yn deg a byddwn yn ailwampio gwefan CCISS i sicrhau bod ei deunyddiau'n addas i'r diben. Byddwn yn gweithio hefyd gyda grwpiau sy'n cynrychioli cleifion ac aelodau'r cyhoedd i gyd-gynhyrchu llyfryn gwybodaeth i'r cyhoedd am GIP. Bydd y cyhoeddiad hwn, a fydd yn nodi taith unigolyn drwy'r broses GIP, fel y manylir ym mharagraffau 38 i 39, yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2020 i gyd-fynd â chyhoeddi'r Fframwaith diwygiedig.
76. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen adolygu polisi Gofal Nyrsio a Ariennir a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wneud hyn yn 2020 gyda'r bwriad o gynnal ymgynghoriad ar Fframwaith Gofal Nyrsio a Ariennir newydd yn 2021.
77. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y misoedd nesaf i ystyried opsiynau i sicrhau bod unigolyn sy'n pontio o daliadau uniongyrchol i GIP yn gallu defnyddio'i lais a'i reolaeth i benderfynu sut, pryd a phwy sy'n ei gefnogi i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth cymwys. Byddwn yn edrych ar ddichonoldeb cyflwyno ymddiriedolaethau defnyddwyr annibynnol yng Nghymru fel un dull o gefnogi unigolion i reoli eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

Geirfa

<p>Cynnig Rhagweithiol Darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod mor weladwy â'r Saesneg.</p>
<p>Eiriolaeth Y weithred o siarad ar ran, neu i gefnogi, person, lle neu beth arall.</p>
<p>Gofalwr Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl. Mae'r diffiniad yn eithrio'r rhai sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal o dan gontract, neu yn rhinwedd contract neu fel gwaith gwirfoddol.</p>
<p>Rhestr wirio Mae'r rhestr wirio yn adnodd sgrinio GIP i helpu ymarferwyr i nodi unigolion a allai fod angen asesiad llawn o'u cymhwysedd i gael GIP.</p>
<p>Canllawiau Gofal Parhaus Plant a Phobl Ifanc Mae'r canllawiau wedi'u llunio i'w defnyddio gan bawb sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau gofal parhaus i blant mewn BILlau ac ALLau.</p>
<p>Gofal Iechyd Parhaus (GIP) Pecyn gofal wedi'i drefnu a'i ariannu'n gyfan gwbl gan y GIG i ddiwallu anghenion iechyd corfforol a/neu feddyliol sydd wedi codi o ganlyniad i anabledd, damwain neu salwch. Gellir ei ddarparu mewn unrhyw leoliad gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gartref gofal, hosbis neu eich cartref eich hun.</p>
<p>Gwefan Gwybodaeth a Chymorth Gofal Cymhleth www.CCISS.org.uk Adnodd ar y we yw hwn a drefnir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r broses o weithredu'r Fframwaith hwn.</p>
<p>Adnodd Cymorth Penderfynu Adnodd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Nid yw'n asesiad ynddo'i hun ac nid yw'n disodli barn broffesiynol wrth benderfynu ar gymhwysedd. Yn syml, mae'n ffordd o gofnodi'r rhesymeg a hwyluso penderfyniadau rhesymegol a chyson.</p>
<p>Maes Un o ddeuddeg maes allweddol i'w hystyried o fewn yr asesiad integredig a'r Adnodd Cymorth Penderfynu. Y rhain yw anadlu, maeth, ymataliaeth, iechyd croen, symudedd, cyfathrebu, anghenion seicolegol ac emosiynol, gwybyddiaeth, ymddygiad, therapïau cyffuriau a meddyginiaeth, cyflyrau ymwybyddiaeth newidiol ac anghenion gofal arwyddocaol eraill.</p>
<p>Gofal Nyrsio a Ariennir Mae Gofal Nyrsio a Ariennir yn berthnasol i'r holl bobl hynny sydd wedi'u hasesu fel bod angen gofal gan nyrs gofrestredig mewn cartref gofal ar hyn o bryd.</p>
<p>Tîm Amlddisgyblaethol Mae hyn yn cyfeirio at dîm o weithwyr proffesiynol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghenion holistaidd eu cleifion/cleientiaid er mwyn gwella'r ddarpariaeth gofal a lleihau darpariaeth dameidiog. Fel gofyniad sylfaenol, gall tîm amlddisgyblaethol gynnwys dau weithiwr proffesiynol o wahanol broffesiynau gofal iechyd, a dylai'r tîm amlddisgyblaethol gynnwys gweithwyr</p>

<p>iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol (oni bai bod amgylchiadau eithriadol), sy'n wybodus am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yr unigolyn a, lle bo modd, sydd wedi bod yn ymwneud yn ddiweddar ag asesu, trin neu ofal yr unigolyn.</p>
<p>Ymddiriedolaethau defnyddwyr annibynnol</p> <p>Dyma lle mae claf neu berthynas claf yn sefydlu ymddiriedolaeth sy'n dod yn ddarparwr gofal i'r unigolyn. Yna mae'r BIL yn contractio gyda'r ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd penodedig ar gyfer yr unigolyn.</p>
<p>Cyllidebau cyfun</p> <p>Mae cyllidebau yn cael eu cyfuno pan fydd dau neu fwy o sefydliadau yn cyfuno eu hadnoddau yn un gyllideb a rennir.</p> <p>Mae rheoliadau o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i BILlau ac ALlau gynnal cyllidebau cyfun mewn perthynas â lleoedd mewn cartrefi gofal i bobl hŷn. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrdau partneriaeth rhanbarthol hyrwyddo cyllidebau cyfun ac ystyried y defnydd o gyllidebau cyfun ar gyfer unrhyw beth y maent yn ei wneud ar y cyd.</p>
<p>Ymarferydd</p> <p>Pob aelod o staff awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol sy'n ymwneud ag asesiad unigolyn neu ddarparu GIP.</p>
<p>Angen Iechyd Sylfaenol</p> <p>Ystyrir bod unigolyn yn gymwys i gael GIP pan fydd ei angen sylfaenol yn angen iechyd: 'y dull angen iechyd sylfaenol'. Penderfynir ar hyn drwy ystyried pedwar nodwedd allweddol angen: natur, dwysedd, cymhlethdod a natur anrhagweladwy.</p>
<p>Hawliadau GIP Ôl-weithredol y GIG</p> <p>Lle mae rhywun wedi talu am ofal yn y gorffennol, ond yn credu y dylai fod wedi bod yn gymwys i gael GIP.</p>
<p>Adran 117</p> <p>O dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, mae gan awdurdodau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ddyletswydd i ddarparu neu drefnu gwasanaethau ôl-ofal i unigolion sydd wedi'u cadw o dan ddarpariaethau penodol Deddf 1983, hyd nes eu bod yn fodlon nad yw'r person angen gwasanaethau o'r fath mwyach.</p>
<p>Gofal Cymdeithasol</p> <p>Gofal cymdeithasol yw'r gofal a ddarperir i gefnogi anghenion cymdeithasol unigolyn. Mae'n cyfeirio at yr ystod eang o wasanaethau sydd â'r nod o gynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth, eu galluogi i chwarae rhan lawnach mewn cymdeithas, eu diogelu mewn sefyllfaoedd bregus a rheoli perthynas gymhleth ag eraill.</p>
<p>Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol</p> <p>Ar gyfer pobl sydd angen help/cymorth i fyw eu bywydau mor annibynnol â phosibl yn y gymuned (naill ai yn eu cartrefi neu mewn lleoliad gofal), pobl sy'n agored i niwed a phobl y gallai fod angen eu hamddiffyn. Gall awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol ddarparu gofal cymdeithasol.</p>
<p>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</p> <p>Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, gan hybu annibyniaeth pobl i roi llais cryfach a rheolaeth iddynt.</p>